**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Julie Morgan
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Ionawr 2023

Annwyl Julie,

Ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn bwriadu cynnal ymchwiliad dilynol i ofal plant a chyflogaeth rhieni ym mis Chwefror/Mawrth 2024. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gobeithio edrych ar y cynnydd o ran gweithredu adroddiad y Pwyllgor yn 2022, sef: 'Gwarchod y dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio'. Gweler y cylch gorchwyl llawn isod yn yr Atodiad.

Rydym yn bwriadu ehangu ein hymchwiliad newydd i edrych ar y graddau y mae gofal plant yn diwallu anghenion amrywiol teuluoedd; a sut y gellid mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cael mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol yn eu hwynebu.

Byddem yn croesawu diweddariad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y sefyllfa bresennol a'r rhagolygon ar gyfer polisi gofal plant. Os yn bosibl, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi papur i ni yn nodi eich barn erbyn 5 Chwefror 2024.

Hoffem hefyd eich gwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor yn y prynhawn ar 11 Mawrth 2024. O ystyried y cysylltiadau clir rhwng darpariaeth gofal plant a materion cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Atodiad A

- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ddechrau 2022, sef **Gwarchod y dyfodol – Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio**.
- I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn rhoi darpariaeth o safon uchel sy'n cefnogi datblygiad plant, yn mynd i'r afael â thlodi plant ac yn cefnogi cyflogaeth rhieni. Pa newidiadau y gallai fod eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hyn.
- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i ehangu ar y 12.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i bob plentyn dwy flwydd oed, a rhoi pwyslais ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- I ba raddau y mae digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru, a sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant y mae grwpiau demograffig penodol a grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru yn eu hwynebu.
- Pa ddulliau sydd ar gael i integreiddio'r gwaith o ddarparu gofal plant yng Nghymru, a sut y gellir lledaenu arfer gorau yn eang.
- Sut mae pwysau costau byw wedi effeithio ar ddarparwyr a'r gweithlu gofal plant, a pha effeithiau y mae'r rhain wedi'u cael ar y sector.
- Pa wersi y gellir eu dysgu o rannau eraill o'r DU, ac o arfer gorau yn rhyngwladol i wella polisi gofal plant yng Nghymru.
- Sut y mae angen ystyried rhwystrau ariannol a rhwystrau ymarferol wrth ddatblygu polisi gofal plant yn y dyfodol.

# Atodiad B

### Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y **canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau**.

### Polisi Dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Rydym yn disgwyl i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

### Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

### Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

E-bost: **SeneddCydraddoldeb@Senedd.Cymru**
Ffôn: 0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.